# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Awst 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusness a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw symiau canlyniadol Barnett a allai fod yn ddyledus o ganlyniad i'r cynllun sgrapio boeleri yn Lloegr. (WAQ56352)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Cyhoeddwyd y Cynllun Sgrapio Boeleri yn Lloegr yn Adroddiad Rhag-Gyllidebol Llywodraeth y DU fis Rhagfyr diwethaf. Roedd Cynllun Lloegr yn werth £50 miliwn yn 2010-11 ac yn cynnwys arian newydd ac ailddyraniad o arian presennol. O dan Fformiwla Barnett rydym yn derbyn symiau canlyniadol am arian newydd. Derbyniwyd £1.164 miliwn o ganlyniad i gyhoeddi cynllun sgrapio boeleri, er mai Llywodraeth y Cynulliad fydd yn penderfynu os ydym yn buddsoddi adnoddau ychwanegol. Cafodd £3.9 miliwn ei ddyrannu yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2010-11 ar gyfer Prif Grwpiau Gwariant yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Roedd hyn yn cynnwys £2.5 miliwn ar gyfer cynllun sgrapio boeleri yng Nghymru yn 2010-11.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Ar gyfer pob seremoni wobrwyo a gyllidwyd neu a gyllidwyd yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Cyrff a Noddir ganddi, rhowch (a) enw'r seremoni, (b) ei diben, (c) faint o gyllid a roddwyd, a (d) pa ddangosydd a ddefnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i fesur ei llwyddiant. (WAQ56364)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer dyfodol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. (WAQ56347)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Ym mis Mehefin 2010 cyhoeddodd Michael Gove, yr Ysgrifennydd Addysg, ei fwriad i ddiddymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Nid yw'r hyn a awgrymir ar gyfer Lloegr o reidrwydd yn iawn i Gymru ac rwyf wedi bod yn ystyried fy sefyllfa. Fy mwriad yw ceisio datganoli pwerau i benderfynu ar ddyfodol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gydag awdurdodau lleol, rhieni sy'n addysgu eu plant gartref ac eraill dros y misoedd diwethaf ynghylch addysg yn y cartref ac unrhyw bolisïau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y gweill ar gyfer delio â'r mater hwn. (WAQ56353)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ar agweddau ar addysg yn y cartref yn ei Chynllun Gweithredu ar Ymddygiad a Phresenoldeb, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009.

Mae'r ffaith i ddarpariaethau a oedd yn ymwneud ag addysg yn y cartref gael eu dileu o'r Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn gynharach eleni yn golygu nad yw'r Cynulliad wedi cael y pŵer i ddeddfu ar y mater. Yn sgîl hyn, byddaf yn edrych ar yr opsiynau posibl yn yr hydref.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y toriad arfaethedig mewn diwrnodau HMS ar gyfer athrawon a dileu'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus unigol fel y mae'n cael ei rhedeg gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. (WAQ56355)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Dengys tystiolaeth mai’r dulliau mwyaf effeithiol o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon yw’r rhai lle maent yn gweithio gyda’u cyd-athrawon i atgyfnerthu eu haddysgu, gan ddefnyddio technegau megis hyfforddi a mentora, cymunedau dysgu proffesiynol ac ymchwil weithredu. Mae’r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a gweithredu’r Adolygiad o Reoli Perfformiad, Safonau Proffesiynol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cefnogi ysgolion i ddatblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol sy’n cynnig dull mwy cyfunol o ddatblygiad proffesiynol. Nid yw cyfeirio arian at gyrsiau hyfforddiant untro ar gyfer unigolion yn gyson â’r dull hwn.

Mae pum diwrnod HMS wedi’u cynnwys i bob athro fel rhan o delerau ac amodau gwasanaeth athrawon. Ar 13 Gorffennaf cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn trafod yr opsiynau ar gyfer defnyddio ac amseru’r diwrnodau HMS ychwanegol a bennir yn ôl disgresiwn y Gweinidog. Yn ogystal lansiwyd ymgynghoriad i holi barn ar y gofynion tymor hwy ar gyfer y diwrnodau HMS ychwanegol hyn. Byddwn hefyd yn ystyried y ffyrdd y mae’r ysgolion mwyaf effeithiol yn cefnogi datblygiad eu staff eu hunain yng Nghymru ac yn rhyngwladol fel y gallwn ddefnyddio’r dystiolaeth hon i lywio penderfyniadau am y defnydd mwyaf effeithiol o HMS yn y tymor hwy.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddileu neu newid y gwasanaeth trên cyflym rhwng Caergybi a Chaerdydd. (WAQ56346)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddiddymu neu newid y gwasanaeth trên cyflym rhwng Caergybi a Chaerdydd.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o'r £250,000 o gyllid grant a gynigiwyd i Ŵyl y Faenol sydd eisoes wedi cael ei dalu a faint fydd yn cael ei adennill. (WAQ56349)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Roedd ein cyllid ar gyfer yr ŵyl eleni yn amodol ar gadarnhad y byddai'r digwyddiad yn mynd rhagddo. Ni wnaed unrhyw gytundeb grant ffurfiol ac ni thalwyd unrhyw arian.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r rhesymau dros ei benderfyniad i roi grant o £7.5 miliwn i uwchraddio'r trenau a ddefnyddir gan Drenau Arriva Cymru. (WAQ56350)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi ein hymrwymiad i adnewyddu a buddsoddi mewn cerbydau newydd a bydd y buddsoddiad o £7.5m yn helpu i gyflawni hyn.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth yw'r amcangyfrif o gost Ffordd Osgoi Llandysilio. (WAQ56351)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I can confirm the estimated cost of the Four Crosses Bypass is £6.5m.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa asesiad amgylcheddol sydd wedi cael ei wneud o weithredu'r cyswllt hedfan rhwng y gogledd a'r de, o ran lefel absoliwt yr allyriadau a'r allyriadau cymharol wrth ystyried mathau eraill o drafnidiaeth sy'n gwasanaethu'r un llwybr. (WAQ56357)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Roedd y gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru a'r gwasanaeth trên cyflym o'r gogledd i'r de yn rhan o'r asesiad WelTAG lefel uchel a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer pennu'r contractwyr i weithredu'r cyswllt hedfan rhwng y gogledd a'r de a dyddiad dechrau tebygol y contract newydd. (WAQ56359)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Daw'r Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru i ben ar 20fed Medi 2010. Rhagwelir y caiff contract pedair blynedd newydd ei ddyfarnu cyn diwedd y flwyddyn er mwyn darparu gwasanaeth newydd ar ddechrau mis Ionawr 2011.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Wrth bennu pa gontractwr a fydd yn cael y contract i weithredu'r cyswllt hedfan rhwng y gogledd a'r de, a oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru derfyn ar faint y mae'n fodlon gwario ar y contract, ac na fydd tendrau uwch y pris hwn yn cael eu derbyn. (WAQ56360)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Mae'r Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y contract pedair blynedd newydd yn nodi uchafswm cyllideb flynyddol o hyd at £1.2m.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa wasanaethau, hyrwyddo a chyhoeddusrwydd yng nghyswllt Tai y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni ar gyfer pob un o flynyddoedd ariannol y Cynulliad hwn (2007/08, 2008/09, 2009/2010), at ba ddiben a faint mae hyn wedi'i gostio, beth mae'r Gweinidog yn bwriadu ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol hon a beth yw'r amcangyfrif o'r gost. (WAQ56365) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** The majority of promotion and publicity costs incurred in connection with Housing is for publications of our literature, guidance, and strategies. Using information which could be accessed within the time available, the annex attached shows the expenditure that falls within the remit of promotion and publicity and covers the period from 2007/08 to 2010/11.
Please note that the planned expenditure to be carried out this year is an estimate. In some cases costs are not yet known and may be subject to change.

| Year | Description | Total Cost £k |
|---|---|---|
| 2007/08 | Housing Strategy Publication | 35.7 |
| | Guarantee for Housing Associations Residents | |
| | Stock Transfer Tenants Charter Publication | |
| | Private Rental Market Tenants Survey Publication | |
| | WHQS-Guidance publications and training manuals | |
| | Strategic Housing Function and Housing Activities (i2i) Publications and associated costs | |
| | | |
| 2008/09 | The Guarantee for Housing Association Residents Publication | 30.0 |
| | Wales Housing Management Standards for Tackling Anti Social behaviour | |
| | Review of Affordable Housing in Wales | |
| | Housing Related Support Strategy Consultation Publication | |
| | Council Tenants and Leaseholder Guides | |
| | Display stands for Conferences | |
| | Residential Property Tribunal Information leaflets | |
| | National Housing Strategy Consultation Document | |
| | 'Can Do' flyers | |
| | | |
| 2009/10 | Council Tenants and Leaseholder Guides | 10.0 |
| | Ten Year Homelessness Plan Publication | |
| | Stock Transfer –Council Tenants and Leaseholder Guidance inc translations | |
| | Display Stands for conferences | |
| | Review of Affordable Housing in Wales | |
| | 'i to i; publications and banner stands, Wall displays | |
| | Residential Property Tribunal | |

| | | |
|---|---|---|
| | Information leaflets | |
| 2010/11(forecast) | Housing Strategy Framework Publication | 20.0 |
| | Essex Evaluation Report Publication (Provision) up to | |
| | Community Land Trust Handbook | |
| | Stock Transfer-Council Tenants Leaseholder Guidance | |

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso ydych chi wedi'i gyflawni ar gyfer pob un o flynyddoedd ariannol y Cynulliad hwn (2007/08, 2008/09, 2009/2010), at ba ddiben a faint mae hyn wedi'i gostio, beth mae'r Gweinidog yn bwriadu ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol hon a beth yw'r amcangyfrif o'r gost. (WAQ56366) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jocelyn Davies:** I apologise that you were not supplied with the information within the timescale allocated for initial responses. I understand that your question is specifically in connection with housing matters.

Expenditure incurred in relation to housing matters on investigations, research and evaluation during financial years 2007/09, 2008/09 and 2009/10 was as follows:

| Financial Year | Amount |
|---|---|
| 2007/08 | £365,639 |
| 2008/09 | £1,181,658 |
| 2009/2010 | £219,091 |

It must be noted that much of the expenditure was incurred by the Social Justice and Local Government Department which, for historical reasons, covered research into housing matters and not the Housing Directorate. My officials in the Housing Directorate have highlighted currently known research and evaluations planned for 2010/11 and the figure at present is £138,000. However, that is likely to change as the year progresses.

As detailed breakdown is provided in the Annex attached. During the time in question, there have been organisational changes and also a change in the Finance system; therefore, whilst every effort has been made to ensure these figures are as accurate as possible, we cannot guarantee that we have been able to capture all relevant transactions.

I trust that this information is helpful.

**Annex**

**<u>Expenditure on Investigations, Research and Evaluations during 2007/08</u>**

Review of Sheltered Housing - £34,687.50

Review of Choice-based lettings -£9,358.80
Evaluation of the main forms of accommodation for young single homeless people £30,603.38
Analysis of Fuel Poverty form Living in Wales data - £63,007.00

Living in Wales Physical Survey - £151,489.00

Evaluation of Care and Repair -£51,543.75
Sponsorship of Joseph Rowntree Foundation UK Housing Review -£5,000

Development of good practice in interventions with homeless ex-prisoners- £9,975

A sustainable option? Home ownership and mortgage possession actions in Wales - £9,975

**Expenditure on Investigations, Reseacrch and Evaluations during 2008/09**

Evaluation of Care and Repair - £17,181.25

Development of a small-area fuel poverty indicator -£29,650.00

Feasibility study to develop an allocation mechanism for Supporting People funding-£23,750.00

Review of Welsh Women's Aid - £32,200.00

Evidence Review to support the development of the National Housing Strategy-£24,840.00

Assessment of the impact of migration on the allocation of council housing in selected local authority areas -£27,375.00

Living in Wales Physical Survey - £1,004,672

Sponsorship of the Joseph Rowntree Foundation UK Housing Review -£5,000

Development of the environmental standards component of WHQS -£7,990.00

Study of stock transfer in selected case study areas - £5,000

Feasibility study into the re-introduction of CORE- £4,000

**Expenditure on Investigations, Research and Evaluations during 2009/10**

Assessment of the impact of migration on the allocation of council housing in selected local authority areas - £15,584.53

National Assessment of housing needs and demands - £11,850

Living in Wales Physical Survey - £120.000

Sponsorship of the Joseph Rowntree Foundation UK Housing Review - £5,000

Study of stock transfer in selected case study areas - £5,000

Feasibility study into the re-introduction of CORE - £5,400

Investigation for potential for a capital market intervention for Welsh housing market - £26,257

Research to support development of the new Regulatory Framework - £30,000

**Planned expenditure on Investigations, Research and Evaluations during 2010/11**
Research in the field of low housing demands and eco-refurbishment in the South Wales valleys - £10,000

Researching the need for capacity building of service commissioners, providers and users to deliver co-governance - £8,500
The impact of intentional homelessness - £10,000

Supporting People Review - £75,000

Housing Revenue Account Subsidy and Rent Reviews - £17,000

Essex Evaluation - £17,500

This is still an estimate and this is likely to change.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog (a) rhoi manylion pa mor aml mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (neu gyrff eraill) yn monitro, yn archwilio neu'n arolygu sefydliadau sy'n darparu cymorth dan y Grant Cefnogi Pobl; (b) rhoi manylion y weithdrefn ar gyfer hyn; (c) darparu dadansoddiad o'r costau, ee ar gyfer ymgynghorwyr, treuliau ayb a (d) rhoi manylion sut y caiff yr wybodaeth archwilio hon ei rhannu a'i defnyddio gydag awdurdodau lleol, os o gwbl. (WAQ56369)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jocelyn Davies:** The Supporting People Programme is funded through two streams, the Supporting People Grant and the Supporting People Revenue Grant.

The Supporting People Grant is paid direct to Local Authorities. They commission services with providers; the responsibility for monitoring these services rests with them. The Welsh Government provides guidance for this purpose.

By way of additional information; organisations providing support under the Supporting People Revenue Grant are inspected as part of a rolling programme. The aim is that each organisation is inspected at least once every three years. The programme is procured annually. The estimated cost of the inspection programme in the current financial year is £218,000, which covers twenty nine inspections by three consultancy firms. A breakdown of expenses will become available as inspections are completed.

There is provision in the Grant Conditions which allows the Welsh Government to disclose relevant issues to the Local Authorities. Local Authorities themselves are the subject of some inspections. Provider organisations are free to share their own inspection information with Local Authorities.

The forthcoming report for the independent review of the Supporting People Programme is expected to include reference to the monitoring of services.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau sawl gwaith y mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi cwrdd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd dros y 12 mis diwethaf ac a allai restru

dyddiadau unrhyw gyfarfodydd a chadarnhau ym mha gyfarfodydd y trafodwyd gweithredu Adroddiad Pennington. (WAQ56348) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Swyddog Meddygol***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Dr Tony Jewell:** Following the receipt of the Pennington inquiry report the I convened a group on 7th May 2009 to look at the recommendations and agree the lead responsibilities for actioning them, the FSA was part of this meeting as was the WLGA. I also met the FSA to discuss progress on 1st April 2010.

Officials including the Chief Environmental Health Adviser acting on my behalf met the FSA to discuss the implementations of the EColi Inquiry on the 4th June 2009, 10th June 2009, 8th October 2009 and the 17th November 2009. My department and the FSA are in frequent contact.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd y cynllun peilot 'Rhyddhau Amser i Ofalu' yn cael ei gyflwyno ar draws y GIG yng Nghymru i gyd. (WAQ56354)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Yn sgîl llwyddiant y cynllun peilot hwn, mae'r cynllun wedi'i ddatblygu ymhellach ac wedi'i ail-lansio fel rhaglen Gweddnewid Gofal. Mae'n elfen allweddol o flaenoriaethau 1000 a Mwy o Fywydau ar gyfer 2010/11 ac mae holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cymryd rhan lawn yn y gwaith.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud tu hwnt i dderbyn yr argymhellion a bennir yn y ddogfen o'r enw 'Gofal heb ei drefnu: datblygu dull o weithredu ar sail systemau cyfan' gan Swyddfa Archwilio Cymru. (WAQ56358)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Mae ymateb llawn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyhoeddi.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2009/10, beth oedd cyfanswm gwarged neu ddiffyg pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. (WAQ56361)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** Beth yw'r gyllideb ar gyfer cytundeb lefel gwasanaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gydag (a) NICE; (n) Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan; ac (c) pob cyffurlyfr lleol. (WAQ56362)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Mae'r gyllideb ar gyfer cytundeb lefelau gwasanaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru â NICE ar gael ar wefan NICE yn www.nice.org.uk.
Mae gweinyddu AWMSG yn un o'r swyddogaethau a gyflawnir gan Bartneriaeth Meddyginiaethau Cymru.
Nid yw'r gyllideb ar gyfer cytundeb lefelau gwasanaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru â fformilarïau lleol ar gael yn ganolog.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi (a) cofnodion a phapurau holl gyfarfodydd Comisiwn Bevan; a (b) cost a chylch gorchwyl y Comisiwn. (WAQ56363)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Minutes and papers of the Bevan Commission are not routinely published. The Welsh Assembly Government website includes pages relating to the Bevan Commission, and material that is published, at

http://wales.gov.uk/topics/health/nhswales/organisations/bevan/?lang=en

The Welsh Assembly does not pay Commission members but reimburses their expenses.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fonitro gweithredu'r polisi IVF ail gylch a oedd ar waith o fis Ebrill ymlaen a pha gynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn. (WAQ56367)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Mae fy swyddogion wedi bod yn monitro'r gwaith o weithredu polisi ail gylch IVF, a ddaeth i rym o 1 Ebrill, drwy drafodaethau parhaus â Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC).

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno ymgyrch gwrth-stigma yng nghyswllt iechyd meddyg megis yr ymgyrch 'Time to Change' yn Lloegr a'r ymgyrch 'See Me' yn yr Alban. (WAQ56368)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Rwyf wedi cytuno i glustnodi £150K i'r sector iechyd meddwl gwirfoddol ddatblygu hyfforddiant ar wrth-wahaniaethu a gaiff ei arwain gan y gwasanaeth a'i weithredu.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2009/10 a oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu unrhyw gymorth ariannol ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol a chanddynt (a) diffygion tymor byr neu (b) diffygion strwythurol, ac os nad, a yw'n bwriadu gwneud hynny. (WAQ56370)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Ni ddarparwyd unrhyw arian ar gyfer diffygion byrdymor yn 2009-10. Ym mis Rhagfyr 2009, dyrannwyd £11m ychwanegol o arian anghylchol yr un i Fyrddau Iechyd Lleol Powys a Hywel Dda.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ymchwilio i bosibilrwydd diwygio targedau gwasanaethau ambiwlans er mwyn ystyried ffactorau mwy ansoddol. (WAQ56371)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

Mae'r gwaith cenedlaethol ar dargedau deallusol ac astudiaethau eraill yn cael ei asesu ar hyn o bryd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr holl drafodaethau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac (a) yr UE a (b) Llywodraeth y DU sy'n ymwneud ag Adolygiad yr UE o Ffiniau Ardaloedd Llai Ffafriol. (WAQ56372)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae fy swyddogion wedi bod yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad ers ei sefydlu ac maent wedi mapio'r holl gynigion ac wedi ystyried yr effeithiau yng Nghymru.
Ar 5 Mawrth 2010 anfonwyd cyflwyniad y DU i'r Ganolfan Ymchwil ar y Cyd i'w ystyried. Dangosai'r cyflwyniad fawr ddim newid, os o gwbl, i ffin ddynodi Ardal Lai Ffafriol bresennol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod dwyochrog â'r Comisiwn Ewropeaidd ar 12 Ebrill 2010 i drafod cynnwys cyflwyniad y DU. Cafwyd ymateb ffurfiol gan y Comisiwn ar 11 Mai 2010, yn gofyn am ragor o wybodaeth am ddata hinsawdd, ysgogiadau draenio gwael a throthwyon mireinio.
Cyfarfu fy swyddogion â thîm prosiect Ardal Lai Ffafriol y DU ar 23 Gorffennaf 2010 ac anfonwyd gwybodaeth am yr agweddau hyn i DEFRA i'w chynnwys yn ymateb y DU. Disgwylir i gale ei hanfon hyn at y comisiwn ar ddechrau mis Medi 2010. Ar hyn o bryd, ymddengys na fydd yr Ardal Lai Ffafriol yn debygol o newid yng Nghymru; fodd bynnag, disgwyliwn drafodaethau pellach â'r Comisiwn yn y misoedd nesaf ynghylch meini prawf dynodiad a chymhwysedd. Bydd fy swyddogion yn parhau i graffu ar gynigion ac ymgysylltu'n agos ar lefel y DU a'r UE.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gyllido Llais Wrecsam (Cynllun Grant Eiriolaeth), drwy Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain, ar ôl i'r cyllid ddod i ben ym mis Mawrth. (WAQ56345) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus***

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus (Edwina Hart)** Nid wyf wedi gwneud penderfyniad am ariannu Menter Grant Eiriolaeth ar gyfer Anableddau Dysgu ar ôl mis Mawrth 2011.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a oes diffiniad safonol o 'anabledd dysgu' y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i leihau'r perygl o achosi tramgwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth. (WAQ56356) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus***

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

**Edwina Hart** : Roedd ein Datganiad yn 2007 am Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu yn cynnwys adran sy'n diffinio'r term 'anabledd dysgu'.